## ADRAN 3

## CYNLLUNIAU

### Taflen Cynnwys

1. CYNLLUN CYNNAL Y WEINIDOGAETH YNYR EGLWYS YNG NGHYMRU 2007

Yr Atodlen

2. CYNLLUN CYNNAL Y WEINIDOGAETH

Rheoliadau a Wnaed gan Gorff y

Cynrychiolwyr

Rhan 1 Darpariaethau Cyffredinol
Rhan 2 Cronfeydd Cynnal y
Weinidogaeth Rhan 3 Clerigion Plwyf
Lleiafswm Cyflog Rhan 4
Urddasolion a Chlerigion
EsgobaethRhan 5 Darpariaethau
Ariannol Eraill
Rhan 6 Bwrdd y
Persondai Rhan 7
Buddgedau
ClerigionRhan 8 Materion
Amrywiol

Yr Atodlen

Rhan I Maint Symiau, Dyfarniadau, Grantiau, Taliadau, Cyfraniadau,Cyflogau a Buddgedau y Cyfeirir Atynt yn y Cynllun Hwn
Rhan II Cynllun Pensiynau Buddgedau Clerigion

3. CYNLLUNIAU CADEIRLANNAU

**CYNLLUN CYNNAL Y WEINIDOGAETH**
**YN YR EGLWYS YNG NGHYMRU**
**2007**

(1) O 1 Ionawr 2007:

(a) Yn ddarostyngedig i isadran (3), bydd Corff y Cynrychiolwyr yn darparu bob blwyddyn swm o arian ("y Grant") a amcangyfrifwyd drwy gyfeirio at gost dybiedig yr eitemau a restrir yn yr atodlen i hynyma ("yr Atodlen") yn 2006ond wedi ei gyfyngu i'r rhan honno o gost y cyfryw eitemau a ddarparwydgan Gorff y Cynrychiolwyr yn 2006;

(b) Yn ddarostyngedig i isadran (1)(*a*) ac is-adran 2(b), ni fydd Corff y Cynrychiolwyr bellach yn gyfrifol am ddarparu ar gyfer unrhyw ran o gost yr eitemau a restrir yn yr Atodlen;

(c) Yn ddarostyngedig i Gyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru ac i unrhyw delerau neu amodau a bennir dan isadran (5), bydd pob esgobaeth yn penderfynu drosti ei hun y gwariant i'w wneud ar yr eitemau a restrir yn yrAtodlen.

(2) (a) O 1 Ionawr 2009 newidir is-baragraff (g) y Cynllun i ddarllen fel a

ganlyn:"25% o'r ysgoloriaethau a'r grantiau i ymgeiswyr".

(b) O 1 Ionawr 2009 bydd Corff y Cynrychiolwyr yn gyfrifol am 75% o'r ysgoloriaethau a'r grantiau i ymgeiswyr.

(3) Cyn 31 Rhagfyr 2008 a phob blwyddyn wedi hynny bydd Corff y Cynrychiolwyryn adolygu'r Grant ac yn penderfynu a ddylid ei addasu ac i ba raddau y dylid eiaddasu, dan yr amod bod y Grant i barhau heb fod yn llai na'r lefel a nodir yn isadran(1)(*a*) hyd 31 Rhagfyr 2008.

(4) (*a*) Dosrennir y Grant rhwng yr esgobaethau bob blwyddyn drwy gyfeirio at gyfran pob esgobaeth o gyfanswm gwariant Corff y Cynrychiolwyr yn 2002ar yr eitemau a nodir yn yr Atodlen ("y Fformiwla").

(*b)* Cyn 31 Rhagfyr 2008 bydd Corff y Cynrychiolwyr yn adolygu'r Fformiwla aphenderfynu a ddylid ei newid. Ni ddaw unrhyw newid o'r fath i rym cyn 1Ionawr 2009.

(5) Gall Corff y Cynrychiolwyr, wedi ymgynghori â phob esgobaeth, roi telerau ac amodau i bob esgobaeth ynglyn â dal a defnyddio'r swm a delir i bob esgobaeth.

(6) Ar ddiwedd pob chwarter, bydd i bob esgobaeth ad-dalu i Gorff y Cynrychiolwyrunrhyw daliadau a wnaed gan Gorff y Cynrychiolwyr ar ran yr esgobaeth a chyda'i chytundeb gyda golwg ar unrhyw un o'r eitemau a restrir yn yr Atodlen.

## YR ATODLEN

Yr eitemau y cyfeirir atynt yn rhan 1 y cynllun hwn yw:

*Budd-daliadau Clerigion*

(a) Cyflogau Archddiaconiaid, tŷ a chostau (lle nad oes gofal plwyf)

(b) Cyflogau Deon, Canon Trigiannol ac Is-Ganoniaid pob Eglwys Gadeiriol

(c) Cyfraniadau cyfredol pensiwn gwasanaeth ar gyfer pob clerig cyflogedigond esgobion

(d) Cyfraniadau at Gronfeydd Caledi Esgobion

(e) Cyfraniadau at Gronfeydd Gweddwon, Amddifaid a Dibynyddion

(f) Caplaniaid a delir ar hyn o bryd o Gronfa Cynnal y Weinidogaeth

*Hyfforddi Clerigion*

(g) Ysgoloriaethau a Grantiau i Ymgeiswyr am Urddau

(h) Grantiau i Gyrff Addysgol (yn bennaf Coleg Mihangel Sant)

*Eiddo*

(i) Treuliau cynnal persondai

(j) Treuliau yswirio tai clerigion

(k) Darpariaeth ar gyfer tai Ciwradiaid

*Grantiau*

(l) Grantiau Corff y Cynrychiolwyr i Eglwysi Cadeiriol

(m) Treuliau Cofrestryddion Esgobaethol ac Archddiaconiaid

*Corff Llywodraethol*

(n) Treuliau Cyfarfod y Corff Llywodraethol

**CYNLLUN CYNNAL Y WEINIDOGAETH**

RHEOLIADAU A WNAED
GANGORFF Y
CYNRYCHIOLWYR

Rhan I

DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

1.

(1) Y mae'r cynllun hwn i'w adnabod fel Cynllun Cynnal y Weinidogaeth, a chymerirbod pob cyfeiriad at Gynllun Cynnal y Weinidogaeth neu at Gynllun Ail-lunio yng Nghyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru yn cyfeirio at y Cynllun hwn.

(2) O 1 Ionawr 2007 mae'r cynllun hwn i'w ddarllen yn ddarostyngedig i'r Cynllun yndwyn y teitl "Cynllun Cynnal y Weinidogaeth yn yr Eglwys yng Nghymru 2007" ("Cynllun2007") ac yn achos unrhyw wrthdaro rhwng Cynllun 2007 a'r Cynllun hwn darpariaethau Cynllun 2007 fydd mewn grym.

2.

Bydd i faint pob swm, grant, taliad, cyfraniad, cyflog neu fuddged y cyfeirir atyntyn y Cynllun hwn o bryd i'w gilydd gael ei benderfynu gan Gynllun Cynnal Gorff y Cynrychiolwyr neu'r pwyllgor priodol ohono a'i argraffu yn yr Atodlen i hynyma, Atodlen na raid ei hargraffu fel rhan o'r Cynllun hwn ond y bydd i Gorff y Cynrychiolwyr argraffu ei chynnwys o leiaf yn flynyddol a'i ddosbarthu i'w aelodau ac i bob clerig a diaconessy'n gwasanaethu yn yr Eglwys yng Nghymru.

Rhan II

CRONFEYDD CYNNAL Y WEINIDOGAETH

3.

Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn darparu swm o arian ar gyfer yr holl esgobaethau(a elwir yma rhagllaw "Cronfa Cynnal y Weinidogaeth") tuag at gost cynnal yweinidogaeth. Bydd y swm hwn yn cael ei ddosbarthu'n chwarterol i'r esgobaethau yn unol â nifer y clerigion sydd mewn swydd ar ddechrau pob chwarter, y nifer i gael ei gynyddu gan bumed ran y gwahaniaeth, os oes gwahaniaeth, rhwng y nifer dywededig a'r nifer o glerigion a ddyfarnwyd gan Fainc yr Esgobion yn angenrheidiol ar gyfer pobesgobaeth, pryd bynnag y bydd y nifer olaf yn fwy na'r nifer cyntaf.

4.

Yn ychwanegol at y Gronfa Cynnal y Weinidogaeth, bydd Corff y Cynrychiolwyryn dyfarnu i'r esgobaethau elw sy'n deillio o gymynroddion yn unol â'r Atodlen i hynyma.

5.

(1) Rhaid i Fwrdd Cyllid pob Esgobaeth gyflwyno'i argymhellion ar gyfer y cyflogau penodedig a'r cyfraniadau o leiaf dri mis cyn y bwriedir i'r cyfryw argymhellion ddod irym, ac eithrio wrth benodi o'r newydd.

(2) Ar ddechrau mis olaf pob chwarter bydd Corff y Cynrychiolwyr yn hysbysu Bwrdd Cyllid pob Esgobaeth am amcangyfrif faint yn fwy fydd y draul er cynnal y weinidogaethna'r swm chwarterol a ddarparwyd dan adran 3 o hynyma, a rhaid i'r Bwrdd Cyllid dalu'rswm priodol i Gorff y Cynrychiolwyr cyn diwedd y chwarter hwnnw.

6.

(1) Ar argymhelliad Bwrdd Cyllid Esgobaeth, bydd y taliadau canlynol yn draul briodolar y Gronfa Cynnal y Weinidogaeth yn yr esgobaeth honno:

- (a) cyflogau a chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwr Periglorion a Chiwradiaid Cynorthwyol;
- (b) cyfraniadau tŷ i Beriglorion;
- (c) grantiau dros dro er galluogi'r Esgob i ddarparu mewn amgylchiadau arbennig gymorth ychwanegol yn y fywoliaeth (e.e. lle nad yw'r berigloriaeth yn wag, ond bod y Periglor yn methu gweinyddu);
- (d) taliadau ar gyfer unrhyw amcan arall a fyddai'n llesol i Beriglor neu Beriglorwedi ymddeol;
- (e) grant i wraig weddw, i ŵr gweddw neu rywun arall oedd yn dibynnu ar Beriglor neu Giwrad Cynorthwyol yn union wedi ei farw neu ei marw;
- (f) grant i Fwrdd Cyllid Esgobaeth at dalu am ddyletswyddau mewn gofalaethau gweigion;
- (g) treuliau mudo tŷ:
  - (i) Periglor yn symud i berigloriaeth yn yr esgobaeth, yn symud ar gais yresgobaeth o fewn perigloriaeth neu'n symud o berigloriaeth wrth ymddeol;
  - (ii) gwraig weddw, gŵr gweddw neu rywun arall a oedd yn ddibynnol arunrhyw Beriglor a fu farw y byddai ganddo hawl i grant dan (i) uchod;
  - (iii) Ciwrad Cynorthwyol ar ei benodiad cyntaf, wrth symud i giwradiaeth arall, neu ar gael ei benodi i fywoliaeth yn yr esgobaeth;

(h) taliadau ar gyfer gwasanaethu mewn perigloriaethau gwag, sef:

(i) tâl, os bydd tâl, am gymryd gwasanaeth pan fo gofalaeth yn wag ganglerig neu ddiacones yn y weinidogaeth daledig amser-llawn yn yr Eglwys yng Nghymru neu'n ymgymryd â gwasanaeth a gyfrifir yn "wasanaeth pensiynol" at amcanion pennod XII[1] Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru, neu glerig sy'n derbyn pensiwn yn rhinwedd gwasanaeth ei urddau sanctaidd, neu gan glerig yn y weinidogaeth ddi-dâl sydd dros ddeg a thrigain oed;

(ii) pan gymerir gwasanaeth gan ddarllenydd trwyddedig gwneir taliad i Gronfa Cymdeithas Darllenwyr yr Esgobaeth am bob cyfryw wasanaeth;

(iii) lwfans teithio i unrhywun fydd yn cymryd gwasanaethau mewn gofalaeth wag;

(i) lwfans costau teithio i'w dalu i glerigion neu ddiaconesau a fydd, ar gais Esgob yr Esgobaeth yn bugeilio mewn plwyfi gwag cyfagos;

(j) cydnabyddiaeth a threuliau Archddiaconiaid, Canoniaid, Deoniaid Bro a Swyddogion Esgobaethol;

(k) ad-daliad a threuliau dim mwy na thri weinidog lleyg awdurdodedig ym mhob esgobaeth, a fydd yn cael eu cyfrif yn nifer y clerigion mewn swyddyn yr esgobaeth i ddibenion y dosbarthiad chwarterol a wneir dan adran 3 o hynyma;

(l) ychwanaegu at grant i Gabidwl y Gadeirlan dan adran 20;

(m) treuliau gwarcheidwaid persondy mewn bywoliaeth wag, y darperir ar eu cyfer ym mhennod X[2] y Cyfansoddiad neu'r rheoliadau atodiadol iddi;

(n) cyfraniadau i Gronfa Bwrdd Persondai.

(2) Ac eithrio lle darperir yn wahanol, i ddibenion yr adran hon bydd yr ymadrodd:

(a) PERIGLOR yn cynnwys clerig sy'n gofalu am berigloriaeth ataliedig neu ardal gonfensiynol a Ficer mewn bywoliaeth reithorol;

(b) CIWRAD CYNORTHWYOL yn cynnwys clerig a benodwyd gan yr Esgob drwy drwydded dan sêl i swydd amhlwyfol amser-llawn, a Diacones;

(c) RHYWUN DIBYNNOL yn golygu perthynas i'r clerig a fu farw a oedd, adegei farw neu ei marw, yn preswylio gydag ef neu gyda hi ac yn dibynnu arnoneu arni am gynhaliaeth ariannol;

(d) SWYDDOG ESGOBAETHOL yn golygu clerig sydd, ar gais neu gyda chydsyniad yr Esgob, yn cyflawni dyletswyddau arbenigol pa un ai'n ychwanegol at ddyletswyddau plwyfol ai peidio;

(e) GWEINIDOG LLEYG AWDURDODEDIG yn golygu lleygwr a drwyddedwyd gan Esgob yr esgobaeth i gymryd rhan mewn gwaith cenhadu a gweinidogaethu yn yr esgobaeth neu mewn plwyf neu blwyfi o'i mewn.

---

[1] Yn awr Rhan II yr Atodlen i'r Cynllun hwn

[2] Yn awr Rheoliad 14 Pennod VII

(3) Ac eithrio gwir ad-daliad treuliau ac unrhyw dâl am gymryd gwasanaeth pan foperigloriaeth yn wag, ni chymhwysir darpariaethau'r adran hon at glerigion sydd yngngweinidogaeth ddi-dâl yr Eglwys yng Nghymru.

## Rhan III

## CLERIGION PLWYF LLEIAFSWM CYFLOG

### 7.

(1) Ni chaiff Bwrdd Cyllid Esgobaeth, heb gymeradwyaeth bendant Corff y Cynrychiolwyr, argymell cyflog sy'n llai na'r lleiafswm a ddarperir yn yr Atodlen ar gyfer:

- (a) Periglor ar fywoliaeth reithorol;
- (b) Unrhyw Beriglor arall;
- (c) Ficer mewn bywoliaeth reithorol;
- (d) Clerig mewn gofal ar berigloriaeth ataliedig neu ardal gonfensiynol;
- (e) Clerig a benodir i swydd amhlwyfol gan Esgob drwy drwydded dan sêl.

(2) Dan yr amod mewn unrhyw achos pan fo Periglor neu Ficer mewn bywoliaeth reithorol yn dal swydd neu benodiad heb fod yng ngweinidogaeth yr Eglwys yng Nghymru, ac yn derbyn cyflog neu dâl ar wahân am hynny, gall Esgob yr esgobaethargymell i Gorff y Cynrychiolwyr (yn gweithredu drwy'r Is-bwyllgor Cynnal y Weinidogaeth) mai swm na fydd, gyda'r taliad neu'r gyflog ar wahân a dderbynnir gany cyfryw Beriglor neu Ficer, yn llai na'r lleiafswm priodol a enwir yn unol â darpariaethauis-adran (1) o hynyma fydd y gyflog a delir.

(3) Ni chaiff Bwrdd Cyllid Esgobaeth, heb gymeradwyaeth bendant Corff y Cynrychiolwyr, argymell lwfans sy'n llai na'r lleiafswm a ddarperir yn yr Atodlen, ar gyfer Deon Bro.

(4) Ni chymhwysir darpariaethau'r adran hon ar gyfer unrhyw glerig di-dâl.

8.

(1) Gall Bwrdd Cyllid Esgobaeth argymell grant i'w dalu i blwyf ar gyfer pob CiwradCynorthwyol neu Ddiacones amser-llawn a gyflogir yn y plwyf hwnnw, ar yr amod fody Ciwrad Cynorthwyol neu Ddiacones yn derbyn cyflog heb fod yn llai na'r hyn a osodiri lawr yn unol â darpariaethau adran 9(1) o hynyma. Ni chaiff maint grant mewn unrhyw achos fod yn fwy na'r gyflog a delir gan y plwyf.

(2) Parheir i dalu yn unol â'r gwaddol bob grant arbennig yn lle gwaddol ciwradiaetha oedd yn bod cyn 31 Mawrth 1920 a'r incwm oddi wrth bob gwaddol a roddwyd wedi'r dyddiad hwnnw.

9.

(1) Bydd lleiafswm cyflog flynyddol Ciwrad Cynorthwyol, Caplan Cadeirlan neu Ddiacones fel y darperir yn yr Atodlen.

(2) Mewn amgylchiadau arbennig, gall Bwrdd Cyllid Esgobaeth argymell grant ar gyfer Ciwrad Cynorthwyol neu Ddiacones sydd, gyda chaniatâd yr Esgob, yn derbyncyflog lai na'r lleiafswm penodedig.

(3) Cymhwysir y darpariaethau hyn ar gyfer unrhyw Giwrad Cynorthwyol neu Ddiacones a enwebwyd gan Beriglor, gyda chaniatâd yr Esgob, i weithredu'n Giwrad Cynorthwyol neu'n Ddiacones mewn plwyf ac sy'n cyflawni dyletswyddau amser-llawn cyflogedig.

Rhan IV

URDDASOLION A CHLERIGION ESGOBAETH

10.

Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn darparu ac yn talu'r cyflogau a'r treuliau sy'n dilynar gyfer urddasolion a chlerigion esgobaeth.

11.

YR ESGOB CADEIRIOL

(1) Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn darparu ar gyfer pob Esgob Cadeiriol gyflog bersonol a chyfraniadau tuag at gostau cynnal ei gapel a chadwraeth ei wisgoedd.

(2) Gall pob Esgob Cadeiriol hawlio'r cyfraniadau ychwanegol hyn:

- (a) ad-daliad cost teithio dyletswydd ar drafnidiaeth gyhoeddus a chyfraniad teithio am deithio dyletswydd mewn car;
- (b) ad-daliad treuliau rhesymol bwyd a llety ar deithio dyletswydd;
- (c) dan amod ymgynghori ag Is-bwyllgor Preswylfeydd a Threuliau'r Esgobion[3], ad-daliad cost cyflog, treuliau cynhaliaeth ac Yswiriant Gwladol ar gyfer gyrrwr car;
- (d) ad-daliad treuliau rhesymol swyddfa;
- (e) o fewn terfynau graddfa Corff y Cynrychiolwyr ar gyfer cyflogau staff ysgrifenyddol yn 39 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, ad-daliad cost cyflog ac Yswiriant Gwladol a threuliau eraill rhesymol ar gyfer ei ysgrifennydd;
- (f) ad-daliad treuliau rhesymol ar groeso a llety;
- (g) ad-daliad y treuliau ynglŷn ag ordeiniadau; ac
- (h) ad-daliad o 75% cost cynhesu a goleuo'i breswylfa.

(3) Bydd yr Archesgob yn derbyn, heblaw cyflog a chyfraniadau ei swydd yn EsgobCadeiriol, gyfraniad ychwanegol.

[3] Yn awr y Pwyllgor Adnoddau Dynol

12.

ESGOBION CYNORTHWYOL

Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn darparu cyflog ar gyfer Esgob Cynorthwyol syddwedi ei benodi i wasanaethu yn esgobaeth yr Archesgob, y gyflog i gael ei lleihau ynôl cyfanswm unrhyw gyflog arall daladwy i'r Esgob Cynorthwyol gan Gorff y Cynrychiolwyr.

13.

Y DEON

Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn darparu cyflog ar gyfer Deon.

14.

CANONIAID TRIGIANNOL

(1) Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn darparu cyflog ar gyfer pob Canon Trigiannol amser-llawn a benodwyd yn unol â rhan 3 o'r Atodlen i Gynllun Cadeirlan.

(2) Penderfynir swm y cyfryw gyflog, na fydd yn fwy na'r hyn a nodir yn yr Atodlen, obryd i'w gilydd rhwng Esgob yr esgobaeth a Chadeirydd yr Is-bwyllgor Cynnal y Weinidogaeth.

15.

CAPLANIAID CADEIRLAN

Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn darparu cyflogau ar gyfer dau Gaplan ym mhobun o'r cadeirlannau a ganlyn, sef:
Llanelwy; Bangor; Tyddewi; Llandâf; Eglwys Wynllyw, Casnewydd; ac Aberhonddu.

16.

ARCHDDIACONIAID

(1) Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn darparu cyflog i bob Archddiacon, dan yr amod:

(a) y bydd y cyflog yn cael ei leihau yn ôl cyfanswm unrhyw gyflog arall daladwyi Archddiacon gan Gorff y Cynrychiolwyr; a

(b) na thelir cyflog na leihawyd yn unol â darpariaethau paragraff (*a*) o hynymai fwy nag un Archddiacon ym mhob esgobaeth.

(2) Darperir preswylfod ar gyfer Archddiacon.

(3) Gall Archddiacon hawlio'r cyfraniadau pellach a ganlyn ynglŷn â'i ddyletswyddaufel Archddiacon:

(a) ad-daliad teithio dyletswydd ar drafnidiaeth gyhoeddus a chyfraniad teithioam deithio dyletswydd mewn car;

(b) ad-daliad treuliau rhesymol.

17.

TREULIAU MUDO URDDASOLION

(1) Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn cyfrannu tuag at dreuliau rhesymol mudo tŷ ar gyfer urddasolion a'r rhai sy'n dibynnu arnynt, yn y modd a benderfyno'r Is-bwyllgorCynnal y Weinidogaeth[4].

(2) I bwrpas yr adran hon bydd "urddasolion" yn golygu Esgobion, Esgobion Cynorthwyol, Deoniaid, Canoniaid Trigiannol amser-llawn, Archddiaconiaid a Chaplaniaid Cadeirlannau.

---

[4] Yn awr y Pwyllgor Adnoddau Dynol

Rhan V

DARPARIAETHAU ARIANNOL

ERAILL

18.

GRANT AR GYFER CYMDEITHAS GWEDDWON, AMDDIFAID A DIBYNYDDION

Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn gwneud grant blynyddol i Gymdeithas Gweddwon, Amddifaid a Dibynyddion yr Eglwys yng Nghymru.

19.

CABIDWL Y GADEIRLAN

(1) Bydd i Gorff y Cynrychiolwyr wneud grant i Gabidwl pob Cadeirlan i'w ddefnyddio at unrhyw bwrpas wrth weithredu ei Gynllun Cadeirlan, a gall wneud grant ychwanegoli gabidwl Cadeirlan o swm cyfartal i'r gyflog a ddarperir ar gyfer Caplan Cadeirlan danadran 15 o hynyma.

(2) Rhaid i Gabidwl pob Cadeirlan gyflwyno i Gorff y Cynrychiolwyr bob blwyddyn gyfrifon wedi eu harchwilio, a'r rheini'n cynnwys pob arian a dderbyniwyd oddi wrth Gorff y Cynrychiolwyr ac incwm oddi wrth eiddo a gynhwysir yng Nghorff y Cynrychiolwyr ac a weinyddir gan y Deon a'r Cabidwl.

Rhan VI

BWRDD Y

PERSONDAI

20.

Bydd y cyfraniadau i Gyfrif Bwrdd Persondai'r Esgobaeth ar gyfer pob persondyyn yr esgobaeth sy'n dod o fewn y Cynllun Persondai yn y flwyddyn sy'n dechrau 1 Ionawr yn ôl un o'r graddfeydd a ddewisir gan Fwrdd Persondai'r Esgobaeth, wedi ymgynghori â Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth, o blith y rhai a ddarparwyd yn yr Atodlen.

Rhan VII

BUDDGEDAU

CLERIGION

21.



Traethir y Cynllun ar gyfer Pensiynau a Buddgedau Clerigion yn yr Atodlen i hynyma.

## Rhan VIII

## MATERION AMRYWIOL

### 22.

(1) Bwrdd Cyllid Esgobaeth, ynghyd â'r Esgob, fydd yn gyfrifol am weinyddu unrhyw grant a wneir i'r Bwrdd at dalu am ddyletswyddau mewn gofalaethau gwag.

(2) Anfonir ffurflenni cais am daliad tuag at gost dyletswyddau mewn gofalaethau gweigion at Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth.

(3) Rhaid i Fwrdd Cyllid pob Esgobaeth ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol gyflwynoi Gorff y Cynrychiolwyr gyfrif yn dangos sut y defnyddiwyd y grant.

### 23.

(1) Rhaid i'r Is-bwyllgor Cynnal y Weinidogaeth[5] gadw gweithrediad y Cynllun hwndan arolygiaeth a rhoi adroddiad fel y bo angen, ac o leiaf unwaith ym mhob cyfnod odair blynedd, i Gorff y Cynrychiolwyr.

(2) Bydd gan Is-bwyllgor Cynnal y Weinidogaeth[6] awdurdod i benderfynu unrhyw gwestiwn o ddehongliad y bo angen ei benderfynu at amcanion y Cynllun hwn.

### 24.

Bydd gan Gorff y Cynrychiolwyr awdurdod i wneud y cyfryw gyfnewidiadau ag afarno'n addas i'r Cynllun hwn, a rhoddir adroddiad am y gweithrediadau hynny gan Gorff y Cynrychiolwyr i'r Corff Llywodraethol.

### 25.

Er gwaethaf popeth a gynhwyswyd yn hynyma ni cheir talu unrhyw bensiwn sy'nfwy nag a ganiateir gan Ddeddf Cyllid 1970, neu unrhyw amrywiad ystatudol ohoni sydd mewn grym ar y pryd, a phenderfynir "cydnabyddiaeth derfynol" clerig i'r cyfrywddiben yn unol â darpariaethau Rhan II yr Atodlen i hynyma.

---

[5] Yn awr y Pwyllgor Adnoddau Dynol

[6] Yn awr y Pwyllgor Adnoddau Dynol

## YR ATODLEN

### Rhan I

### MAINT SYMIAU, DYFARNIADAU, GRANTIAU, TALIADAU, CYFRANIADAU, CYFLOGAU A BUDDGEDAU Y CYFEIRIR ATYNT YN Y CYNLLUN HWN

1.

Maint Cronfa Cynnal y Weinidogaeth a grybwyllir yn adran 3 (a.3) yn y cynllunfydd £0.

2.

Maint y dyfarniadau a nodwyd yn adran 4 fydd:

(a) £800 y flwyddyn i Esgobaeth Mynwy ar gyfer Cymynrodd Llangattock;

(b) £400 y flwyddyn i Esgobaeth Llandâf ar gyfer Cymynrodd Neale;

(c) £300 y flwyddyn i Esgobaeth Llanelwy at fywoliaeth Penarlâg ar gyferCymynrodd Gladstone; a

(d) £276 y flwyddyn i Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu dan GymynroddionSyr John Llewellyn a Baker Haynes.

3.

Swm y cymorthdal a delir i Wraig Weddw, Gwr Gweddw neu Ddibynnydd aralla enwir yn a.6(1)(*e*) fydd £100.

4.

Maint y taliadau a grybwyllwyd yn adran 6(1)(*h*) am gymryd gwasanaethau mewn perigloriaethau gwag fydd (o 1 Ionawr 2024):

| | | £ |
|---|---|---|
| (a) | clerig neu ddiacones yn y weinidogaeth gyflogedig amser-llawn neu mewn gwasanaeth pensiynol | 0 |
| (b) | clerig yn derbyn pensiwn yn rhinwedd gwasanaeth mewn Urddau Sanctaidd | 30.00 |
| (c) | clerig yn y weinidogaeth ddi-dâl dros ddeg a thrigain oed | 30.00 |
| (d) | Darllenydd trwyddedig | 30.00 |

5.

Maint y lwfans costau teithio a nodir yn yr adrannau dilynol fydd (o 6 Ebrill2011):

(a) clerig neu ddiacones
yn y weinidogaeth gyflogedig amser-llawn neu mewn gwasanaeth pensiynol, yn cymryd gwasanaeth mewn perigloriaeth wag a.6(1)(h) ac yngofalau'n fugeiliol am y plwyf gwag s.6(1)(i)

(i) y 10,000 o filltiroedd cyntaf....45c y filltir

(ii) wedi hynny....25c y filltir

(b) Esgob Cadeiriol
(lle nad yw Corff y Cynrychiolwyr yn darparu car) a.11(2)(*a*)

(i) y 10,000 o filltiroedd cyntaf....45c y filltir

(ii) wedi hynny....25c y filltir

(c) Archddiacon a.16(3)(*a*)

(i) y 10,000 o filltiroedd cyntaf....45c y filltir

(ii) wedi hynny....25c y filltir

Bydd maint y lwfans costau teithio a nodir yn (*a*) i (*c*) uchod yn ddarostyngedig iadolygiad y Cyllid a Thollau EM yn Ebrill bob blwyddyn. Anfonir manylion am y cyfrywadolygiad at bawb y mae'n berthnasol iddynt.

6.

(1) Maint isafswm cyflog y cyfeirir ato yn yr adrannau dilynol fydd (o 1 Ionawr 2024):

| | | £ | *% o gyflog periglor (yn fras)* |
|---|---|---|---|
| (a) | Ciwrad Cynorthwyol, Caplan Cadeirlan neu Ddiacones a.9(1), a.15 | 24,244 | 85 |
| (b) | Periglor, Ficer mewn Bywoliaeth Reithorol, Clerig mewngofal a Chlerig a benodir i swydd amhlwyfol a.7(1)(*b*)(*c*)(*d*)(*e*) | 28,522 | 100 |
| (c) | Periglor Bywoliaeth Reithorol a.7(1)(*a*) | 29,948 | 105 |

(2) Maint y cyflogau yn yr adrannau dilynol fydd:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (a) | Canon Trigiannol a.14(2) | 32,800 | 115 |
| (b) | Archddiacon a.16(1) | 43,639 | 153 |
| (c) | Deon a.13 | 44,209 | 155 |
| (d) | Esgob Cynorthwyol a.12 | 48,488 | 170 |
| (e) | Esgob Cadeiriol a.11(1) | 52,766 | 185 |
| (f) | Archesgob | 57,044 | 200 |

7.

Maint y cyfraniadau a nodwyd yn yr adrannau dilynol fydd:

£

(a) Esgob Cadeiriol - capel a gwisgoedd a.11(1) ........................50 y flwyddyn

(b) Archesgob a.11(3) ................................................................700 y flwyddyn

(c) Deon Bro a.7(3) ................................................................ 2,852 y flwyddyn

8.

Y graddfeydd y cyfeiriwyd atynt yn yr adrannau dilynol fydd (o 1 Ionawr 2024):Cyfrif Bwrdd Persondai a.20:

| Persondai heblaw tai a feddiennir gan Giwradiaid Cynorthwyol | | Tai a feddiennir gan Giwradiaid Cynorthwyol | |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth | Corff y Cynrychiolwyr | Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth | Corff y Cynrychiolwyr |
| £ 6,479 | £ 0 | £ 6,479 | £ 0 |

9.

Maint y symiau y cyfeiriwyd atynt yn yr adrannau dilynol fydd:

£

Buddged Gweddw neu ŵr gweddw Clerig:
a.19(4)(*a*) o Rhan II o'r Atodlen.................................................................... 2,500

YR ATODLEN

Rhan II

CYNLLUN PENSIYNAU CLERIGION

*Darpariaethau Cyffredinol ar gyfer Pensiynau*

1.

Bydd pensiynau dan y Cynllun hwn yn anghyfrannol, ac fe'u telir gan Gorff y Cynrychiolwyr.

2.

Ni ellir na throsglwyddo nac ildio unrhyw bensiwn a delir gan Gorff y Cynrychiolwyr dan y Cynllun hwn.

3.

Ac eithrio lle bo'r darpariaethau'n wahanol, peidiodd y Cynllun Pensiwn Clerigwyrblaenorol (a elwir yn y Cynllun hwn *y Cynllun Blaenorol*) â bod mewn grym ar 3l Rhagfyr 1977, a daeth y Cynllun presennol i rym ar 1 Ionawr 1978.

4.

Bydd i unrhyw fater yn ymwneud â'r Cynllun hwn na wnaed darpariaeth ar ei gyferyn hynyma gael ei benderfynu gan Gorff y Cynrychiolwyr.

*Gwasanaeth Pensiynol*

5.

(1) Golyga gwasanaeth pensiynol y blynyddoedd o wasanaeth a roddwyd gan glerig neu ddiacones yng ngweinidogaeth gyflogedig amser-llawn yr Eglwys yng Nghymru,neu mewn lle arall fel y darperir yma rhag llaw, ond yn achos rhai'n ymddeol ar ôl 20Medi 1983 bydd pob mis a gwblhawyd yn cyfrif fel deuddegfed ran o flwyddyn wrth gyfrif cyfanswm cyfnod y cyfryw wasanaeth pensiynol.

(2) Cyfrifir gwasanaeth cyflogedig amser-llawn yn yr Eglwys yng Nghymru, fel Ysgrifennydd Cyngor neu Bwyllgor Taleithiol, neu Swyddog Esgobaethol a benodwyd drwy drwydded dan sêl i gyflawni dyletswyddau amhlwyfol, yn wasanaeth pensiynol.

(3) Bydd i Gorff y Cynrychiolwyr farnu ym mhob achos a ganiateir i glerig neu ddiacones yng ngwasanaeth cyflogedig rhan-amser yr Eglwys yng Nghymru gronni budd-daliadau pensiwn cyfatebol i'r rhai a gronnir gan glerigion neu ddiaconesau mewn gwasanaeth cyflogedig amser llawn.

6.

Deugain mlynedd fydd y cyfnod mwyaf o wasanaeth pensiynol ar gyfer pensiwn,a dwy flynedd fydd y cyfnod lleiaf.

7.

Yn unrhyw un o'r achosion a ganlyn

(a) lle bo Esgob Cadeiriol gyda chaniatâd Mainc yr Esgobion, unrhyw glerig arall neu ddiacones gyda chaniatâd yr Esgob mewn ysgrifen, yn gadael Cymru i wasanaethu yn y maes cenhadol dramor neu i fod yn gaplan i eglwys Gymraeg yn Lloegr, neu

(b) lle bo clerig neu ddiacones yn gwasanaethu yn gaplan amser-llawn yng Nghymru i'r Genhadaeth i Fordeithwyr, neu

(c) lle bo clerig neu ddiacones yn gwasanaethu am gyfnod yn aelod amser- llawn o staff dysgu Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan, neu Goleg Sant Mihangel, Llandaf, neu warden amser-llawn neu aelod arall amser-llawn o staff hostel eglwys yng Nghymru a gydnabyddir yn gyfryw gan Fainc yr Esgobion,

bydd i'r cyfryw wasanaeth gael ei ystyried yn wasanaeth pensiynol o fewn y Cynllunhwn, oni bai fod y cyfryw wasanaeth ynddo'i hun yn cynnwys hawliau pensiwn , ac aryr amod y gall Corff y Cynrychiolwyr benderfynu a yw unrhyw wasanaeth arbennig dramor yn y maes cenhadol.

8.

Yn achos clerig neu ddiacones y gohiriwyd ei ordeinio am gyfnod o ganlyniad i unrhyw effaith rhyfel neu o ganlyniad i gyflawni Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyngorEsgob yr esgobaeth cyn cael ei ordeinio, ond a oedd wedi ei dderbyn i'w ordeinio, gallCorff y Cynrychiolwyr ddatgan y bydd i'r cyfan neu unrhyw ran o'r cyfryw gyfnod gaelei gyfrif fel gwasanaeth pensiynol i ddibenion y Cynllun hwn, eithr dan yr amod lle bo'rcyfryw glerig neu ddiacones wedi derbyn pensiwn neu fuddged gan y Goron, ar wahâni bensiwn anabledd neu fuddged rhyfel, ni fydd i'r cyfnod gwasanaeth y talwyd y cyfryw bensiwn neu fuddged ar ei gyfer gael ei gyfrif fel gwasanaeth pensiynol.

9.

Mewn unrhyw achosion yn unol â darpariaethau adrannau 17 neu 18 pennod VI lle gofynnwyd i glerig neu ddiacones ymddeol, pennir swm y pensiwn ar sail blynyddoedd y gwasanaeth pensiynol yn yr un modd ag yn achos clerig neu ddiacones a ymddeolodd dan ddarpariaethau'r Cynllun hwn.

10.

Gall Corff y Cynrychiolwyr benderfynu y bydd i wasanaeth a roddwyd gan glerigneu ddiacones, gwahanol i'r hyn y cyfeirir ato'n ffurfiol yma, gael ei gyfrif yn wasanaeth pensiynol.

*Graddfeydd Taliadau a Ffiniau Ariannu y Cyllid Gwladol*

11.

(1) Graddfa'r pensiynau a delir i glerigion a diaconesau y cychwynnodd eu gwasanaeth pensiynol cyn 1 Ionawr 2006 fydd, am bob blwyddyn o wasanaeth pensiynol, un rhan o ddeugain o drigain y cant o leiafswm cyflog y swydd bensiynoluchaf a ddaliwyd ar unrhyw adeg yn ystod y pum mlynedd olaf o'r cyfryw wasanaethpensiynol.

(2) Graddfa'r pensiynau a delir i glerigion a diaconesau sy'n cychwyn ar wasanaethpensiynol neu'n dychwelyd iddo wedi 31 Rhagfyr 2005 fydd am bob blwyddyn o wasanaeth pensiynol wedi hynny un rhan o ddeugain o hanner cant y cant o leiafswmcyflog y swydd bensiynol uchaf a ddaliwyd ar unrhyw adeg yn ystod y pum mlyneddddiwethaf o'r cyfryw wasanaeth.

(3) I ddibenion isadran (1) o hynyma, bydd swyddi Archesgob, Esgob Cadeiriol, Esgob Cynorthwyol, Deon, Archddiacon a Pheriglor yn swyddi pensiynol.

(4) Bydd i glerig nad yw wedi dal un o'r swyddi pensiynol a nodwyd yn isadran (3) ohynyma a diacones dderbyn pensiwn fel pe bai ef neu hi wedi bod yn Beriglor dan yramod y bydd i swyddi Canon Trigiannol a Rheithor mewn Bywoliaeth Reithorol gael eu hystyried yn swyddi pensiynol i ddibenion isadran (1) a (2) o hynyma yn achos clerigionyn dal y naill swydd neu'r llall ar 31 Rhagfyr 2001, neu, gan fod wedi dal y cyfryw swyddar neu cyn y dyddiad hwnnw, a fydd yn ymddeol o weinidogaeth gyflogedig amser- llawn yr Eglwys yng Nghymru ar neu cyn 31 Rhagfyr 2006 ac wedi dal y swydd yn ystod y pum mlynedd cyn ymddeol.

(5) Nid ystyrir fod unrhyw hawliau pensiynol yn deillio o ganlyniad i unrhyw lwfansneu gyflog ychwanegol a delir i glerig yn rhinwedd gwasanaethu mewn swydd amhensiynol.

(6) (*a*) At ddibenion cyfrif y pensiwn a'r cyfandaliad pensiwn i'w talu yn unol â'r Cynllun hwn, ystyrir mai "cydnabyddiaeth derfynol" clerig neu ddiacones fydd y gyflog a dalwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr i'r cyfryw glerig neu ddiacones am y flwyddyn yn union cyn ymddeol, ar yr amod os daliwyd swydd uwch ar unrhyw adeg yn ystod y pum mlynedd olaf o wasanaeth pensiynol gyda'r Eglwys yng Nghymru, yr ystyrir at amcanion y Cynllun hwn mai cyflog gyfredol y swydd uwch honno a dalwyd am y flwyddyn yn unioncyn ymddeol; a

(*b*) Lle y gweithredwyd y Cynllun cyn 6 Ebrill 2006 o dan gyfyngu ar bensiynau gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, cynhwysai'r "gydnabyddiaeth derfynol" at bwrpas penderfynu a oedd pensiwn o'r fath yn mynd dros y cyfyngu hwnnwy swm a ddarperir yn Atodlen Cynllun Cynnal y Weinidogaeth y cytunwydarno fel gwerth y tŷ yr oedd ef neu hi yn ei feddiannu ar y pryd i'r cyfryw glerig neu ddiacones.

*Talu*

12.

(1) Ni thelir unrhyw bensiwn oni wneir cais amdano yn y ffurf a bennwyd gan Gorff yCynrychiolwyr wedi ei arwyddo gan y ceisydd neu ar ei ran.

(2) Ac eithrio yn achos ceisydd dan ddarpariaethau paragraff 15(1) o hynyma neu lle mai'r Archesgob neu Esgob Cadeiriol yw'r ceisydd, bydd i'r cais gael ei adarwyddo gan yr Esgob Cadeiriol.

(3) Yn achos ceisydd dan ddarpariaethau paragraff 15(1) o hynyma bydd i'r cais gael ei anfon yn uniongyrchol at Ysgrifennydd Corff y Cynrychiolwyr.

13.

(1) Cynyddir graddfa'r pensiynau a delir am wasanaeth pensiynol a gwblhawyd cyn I Ionawr 2006 gan y ganran y cynyddir isafswm cyflogau clerigion bob blwyddyn.

(2) (*a*) Cynyddir graddfa'r pensiynau a delir am wasanaeth pensiynol a gwblhawyd wedi 31 Rhagfyr 2005 yn flynyddol yn ôl yr un ganran â chanran y cynnyddyn y Mynegai Prisiau Adwerthu a gyhoeddir gan Swyddfa'r Ystadegau Cenedlaethol neu ei holynwyr am y deuddeng mis blaenorol yn ddarostyngedig i uchafswm cynnydd o 5%.

(*b*) Os peidir â chyhoeddi'r cyfryw fynegai neu bod y dulliau a ddefnyddir i'w llunio yn ei gwneud yn amhosibl amcangyfrif y cyfryw ganran bydd i'r mynegai y cyfeirir ato wrth amcangyfrif y cyfryw gynnydd neu ddull amgeno amcangyfrif gael ei benderfynu gan y Corff Llywodraethol.

14.

Cyn ac ar unrhyw adeg tra parheir i dalu pensiwn i glerig neu ddiacones yn dioddef o anabledd parhaol o fewn adran 3 pennod XII y Cyfansoddiad, bydd gan Gorff y Cynrychiolwyr yr hawl i fynnu bod y cyfryw glerig neu ddiacones yn cael archwiliad meddygol gan feddyg a ddewiswyd gan Gorff y Cynrychiolwyr, ac os digwydd i'r cyfryw glerig neu ddiacones gael adferiad iechyd a derbyn swydd gyflogedig gall Corff y Cynrychiolwyr, os barna'n addas, ailystyried maint y cyfryw bensiwn.

*Pensiynau a Glowyd neu a Drosglwyddwyd*

15.

(1) Yn achos un nad yw mewn gwasanaeth pensiynol sydd wedi cyrraedd yr oedranymddeol addas isaf dan Bennod VIII y Cyfansoddiad ar ôl 5 Ebrill 1975 ac sy'n gymwys i dderbyn pensiwn dan ddarpariaethau'r Cynllun hwn, y dull o gyfrif y cyfryw bensiwnfydd yr un a oedd mewn grym ar 1 Ionawr 1978 neu'r dyddiad pan beidiodd y cyfrywun â bod mewn gwasanaeth pensiynol, pa un bynnag a oedd ddiweddaraf. Eithr ar neu wedi 20 Medi 1983 adolygir swm y cyfryw bensiwn yn flynyddol a'i gynyddu gan ganrany cynnydd yn y Mynegai Prisiau Adwerthu am y deuddeng mis blaenorol, hyd at, ondheb fod yn fwy na *phump y cant y flwyddyn*. Wrth ymddeol adolygir swm y cyfryw bensiwn drachefn a'i gynyddu gan ganran y cynnydd yn y Mynegai Prisiau Adwerthuam y cyfnod ers yr adolygu blaenorol, hyd at ond heb fod yn fwy na'r ddeuddegfed rano bump y cant am bob mis o'r cyfryw gyfnod a gwblhawyd.

(2) Pan fo rhywun yn ymddeol mewn amgylchiadau lle nad oedd mewn gwasanaeth pensiynol yn yr Eglwys yng Nghymru yn union cyn y cyfryw ymddeol, bydd ganddo/ihawl i bensiwn dan ddarpariaethau paragraff (1) o hynyma yn unol â blynyddoedd unrhyw wasanaeth pensiynol yr oedd unrhyw ran ohono'n cronni ar 5 Ebrill 1975 neuwedi hynny.

*Taliadau* Ex Gratia *ac yn ôl Doethineb*

16.

Bydd gan Gorff y Cynrychiolwyr y gallu i wneud dyfarniad *ex-gratia* os bydd Esgob yr esgobaeth yn cymeradwyo hynny ac ar y cyfryw amodau ag y barno Corff y Cynrychiolwyr yn gymwys, er budd clerig neu ddiacones sydd â llai na dwy flynedd owasanaeth pensiynol wrth gefn; gellir ailystyried y cyfryw ddyfarniad ar unrhyw adeg.

17.

Pan fo cyfanswm incwm unrhyw un a fo'n derbyn pensiwn dan y Cynllun hwn yn llai nag uchafswm pensiwn Periglor, gall Corff y Cynrychiolwyr, os barna hynny'n addas, gynyddu'r cyfryw bensiwn trwy roi grant yn ôl ei ddoethineb.

*Darpariaethau at Ymddeol Cynnar Gwirfoddol*

18.

(1) Yn ddiymrwymiad i adran 2(2) Pennod VIII y Cyfansoddiad, gall clerig ymddeolo'r weinidogaeth gyflogedig ar yr amod iddo/i gyrraedd 55 mlwydd oed neu y bydd yncyrraedd 55 mlwydd oed ar y dyddiad y bwriedir ymddeol.

(2) (*a*) Rhaid i glerig sy'n dymuno gwneud cais am gael ymddeol yn gynnar roi trimis o rybudd i Esgob yr esgobaeth ac ni ellir lleihau'r cyfnod hwnnw ond trwy ganiatâd Esgob yr esgobaeth.

(*b*) Bydd rhyddhau'r pensiwn a'r cyfandaliad pensiwn yn gynnar yn ddarostyngedig i leihad actiwaraidd i gymryd cyfrif o'r ffaith bod y taliadaupensiwn yn cychwyn yn gynnar a'i bod yn bosibl y bydd cyfnod y taliad ynhwy.

(3) Lleiheir pensiwn a ganiateir mewn amgylchiadau o'r fath am yr holl gyfnod y mae'rpensiwn yn daladwy ac felly hefyd y pensiwn arfaethedig i'r priod neu bartner sifil sy'ngoroesi, ac yn ystod y cyfnod hwnnw fe gynyddir y pensiwn ar yr un ganran bob mislonawr â phensiynau a delir ar oedran pensiwn arferol neu wedi hynny.

19.

(1) Telir cyfandaliad pensiwn i bob clerig neu ddiacones sy'n ymddeol (a elwir ar ôlhyn "y buddiolydd") sydd â hawl i bensiwn a delir gan Gorff y Cynrychiolwyr.

(2) Gellir cynyddu'r cyfandaliad pensiwn ar gais y clerig neu'r ddiacones sy'n ymddeol a lleihau'r pensiwn blynyddol.

(3) Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn penderfynu o bryd i'w gilydd swm y cyfandaliadpensiwn a'r pensiwn a leihawyd.

20.

(1) Lle'r oedd y buddiolydd mewn gwasanaeth amser-llawn yng ngweinidogaeth yrEglwys yng Nghymru yn union cyn ymddeol, bydd uchafswm y cyfandaliad pensiwnyn unol â'r swydd y mae'n ei dal ar ddyddiad yr ymddeol ac fe'i cyfrifir yn ôl 1½ gwaithisafswm y cyflog a argymhellir ar gyfer y swydd honno ar 31 Rhagfyr cyn dyddiad ymddeol ynghyd â 1½ gwaith deuddegfed ran y codiad cyflog blynyddol am bob mis owasanaeth a gwblhawyd ym mlwyddyn galendr ymddeol; dan yr amod os yw wedi dalswydd uwch ar unrhyw adeg yn ystod pum mlynedd olaf gwasanaeth pensiynol yn yrEglwys yng Nghymru cymerir i amcan yr is-adran hon mai'r swydd uwch honno a ddelidar ddyddiad yr ymddeol.
Telir uchafswm y cyfandaliad pensiwn pan fydd 40 mlynedd o wasanaeth pensiynolwedi eu cwblhau. Os bydd y buddiolydd wedi gwasanaethu am gyfnod byrrach bydd y cyfandaliad pensiwn taladwy y cyfartaledd perthnasol i rif y blynyddoedd a'r misoedd cyfan o wasanaeth pensiynol.

(2) Lle nad oedd y buddiolydd mewn gwasanaeth amser-llawn yng ngweinidogaethyr Eglwys yng Nghymru yn union cyn bod yn gymwys i dderbyn pensiwn taladwy ganGorff y Cynrychiolwyr ar ôl cyrraedd yr oedran lleiaf i ymddeol yn unol â Phennod VIIIy Cyfansoddiad, cyfrifir y cyfandaliad pensiwn a delir i'r buddiolydd ar y raddfa a oedd mewn grym ar 1 Ionawr 1978 neu'r dyddiad y peidiodd y buddiolydd â bod mewn gwasanaeth pensiynol amser-llawn yng ngweinidogaeth yr Eglwys yng Nghymru, paun bynnag a fo ddiweddaraf. Eithr, ar neu wedi 20 Medi 1983, adolygir swm y cyfrywgyfandaliad pensiwn yn flynyddol, a'i gynyddu yr un faint â'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Adwerthu yn ystod y deuddeng mis blaenorol, hyd at, ond heb fod yn fwy naphump y cant y flwyddyn. Ar ymddeoliad, adolygir cyfanswm y cyfryw gyfandaliad pensiwn drachefn a'i gynyddu gan faint y cynnydd yn y Mynegai Prisiau Adwerthu ynystod y cyfnod ers yr adolygu blaenorol, hyd at, ond heb fod yn fwy na deuddegfed ran o bump y cant am bob mis o'r cyfryw gyfnod a gwblhawyd.

(3) Os bydd clerig neu ddiacones yn ymddeol cyn cyrraedd yr oedran lleiaf i ymddeol oherwydd methiant parhaol ac yn cael pensiwn a delir gan Gorff y Cynrychiolwyr, bydd gan y cyfryw glerig hawl i dderbyn cyfandaliad pensiwn.

(4) Os digwydd i glerig neu ddiacones farw cyn ymddeol, a'i fod ef neu hi mewn gwasanaeth pensiynol ac wedi cyrraedd deng mlwydd a thrigain oed adeg ei f/marw,a chanddo/i hawl i gyfandaliad pensiwn dan ddarpariaethau'r Cynllun hwn ar ei h/ymddeoliad, ac nad oes hawl gan y wraig neu'r gŵr gweddw neu'r partner sifil i daliad Marw mewn Swydd yr Eglwys yng Nghymru, telir i'r wraig neu'r gŵr gweddw neu'r partner sifil sy'n goroesi y mwyaf o'r ddau swm canlynol:

(a) y swm a ddarperir yn Atodlen Cynllun Cynnal y Weinidogaeth; neu

(b) y cyfandaliad pensiwn tybiedig y byddai gan y clerig neu'r ddiacones hawliddo dan ddarpariaethau'r Cynllun hwn os oedd wedi ymddeol yn union cyn ei f/marw.

Os na ddigwydd i'r clerig neu ddiacones adael y cyfryw weddw neu ŵr gweddwneu bartner sifil gellir talu i'r rhai sy'n dibynnu arno/i neu i berthnasau y cyfryw swm,ond heb fod yn fwy na'r symiau a osodwyd yn (*a*) a (*b*) uchod, fel y pennir gan Esgobyr esgobaeth.

21.

At amcanion paragraff 20 o hynyma, bydd yr ymadrodd "gwasanaeth amser-llawn yng ngweinidogaeth yr Eglwys yng Nghymru" yn cynnwys gwasanaeth a gyfrifir yn "wasanaeth pensiynol" at amcanion paragraffau 5 i 10 o hynyma, a bydd gan Gorff y Cynrychiolwyr awdurdod llawn i benderfynu a yw gwasanaeth a roddwyd gan glerig neu ddiacones yn "wasanaeth amser-llawn yng ngweinidogaeth yr Eglwys yng Nghymru".

*Pensiynau ar gyfer Priod neu Bartner Sifil sy'n goroesi*

22.

Bydd gan briod neu bartner sifil sy'n goroesi y bu ei ph/briod neu ei ph/bartnersifil farw ar neu wedi 23 Medi 1994, hawl gyfreithiol i bensiwn,

(a) os oedd yr ymadawedig, yn union cyn ei f/marw, yn glerig neu ddiacones aoedd

  (i) naill ai yn derbyn pensiwn (gan gynnwys pensiwn *ex-gratia*) neu grant yn rhinwedd gwasanaeth yng ngweinidogaeth yr Eglwys yng Nghymru, taladwy gan Gorff y Cynrychiolwyr, neu

  (ii) mewn gwasanaeth pensiynol a bod ganddo ef/hi o leiaf ddwy flyneddo wasanaeth pensiynol wrth gefn,

a

(b) bod y priod neu'r partner sifil sy'n goroesi yn briod neu mewn partneriaethsifil â'r ymadawedig, pe bai wedi ymddeol, adeg ei ymddeoliad.

23.

(1) Graddfa y cyfryw bensiwn fydd trigain y cant o'r pensiwn yr oedd y clerig neu'rddiacones ymadawedig yn ei dderbyn pan fu farw neu y byddai ganddo/ i hawl i'w dderbyn dan ddarpariaethau'r Cynllun hwn pe bai'r ymadawedig wedi ymddeol yn union cyn marw.

(2) I ddiben y paragraff hwn, ac eithrio lle cyfrifir pensiwn priod neu bartner sifil sy'ngoroesi ar sail hawl y priod neu'r partner sifil ymadawedig o dan baragraff 15 (1) o hynyma, ystyrir bod unrhyw gynnydd yng ngraddfa pensiynau clerigol i'w gymhwysoat bensiwn y priod neu'r partner sifil sy'n goroesi.

24.

Bydd gan Gorff y Cynrychiolwyr, mewn achosion eithriadol, hawl i ddyfarnu pensiwn *ex-gratia* i briod neu bartner sifil sy'n goroesi yr oedd ei ph/briod neu ei ph/bartner sifil ymadawedig yn gymwys yn ôl gofynion naill ai paragraff (a), (b) neu (c) paragraff 28 o hynyma, er gwaethaf nad oedd wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil â'r ymadawedig am o leiaf bum mlynedd.

25.

Lle bo cyfanswm incwm unrhyw briod neu bartner sifil sy'n goroesi a fo'n derbynpensiwn dan y Cynllun hwn yn llai na thrigain y cant o uchafswm pensiwn Periglor, gall Corff y Cynrychiolwyr, os barna hynny'n addas, gynyddu'r cyfryw bensiwn trwy roi grantyn ôl ei ddoethineb.

*Darpariaethau Trosiannol*

26.

Bydd i bob clerig a diacones a ymddeolodd yn y blynyddoedd 1978 hyd 1984 (yn gynhwysol) dderbyn yn ychwanegol at eu pensiynau yr ychwanegiadau a ganlyn am bob blwyddyn o wasanaeth pensiynol llai na 40 mlynedd (hyd at fwyafswm o 20 mlynedd).

| *Blwyddyn ymddeol* | *Maint yr ychwanegiad* |
|---|---|
| | £ |
| 1978 | 21 |
| 1979 | 18 |
| 1980 | 15 |
| 1981 | 12 |
| 1982 | 9 |
| 1983 | 6 |

1984 3

27.

Er gwaethaf darpariaethau adran 11 o hynyma telir pensiwn i glerigion a wasanaethodd fel Deoniaid Bro ar unrhyw adeg rhwng 1 Ionawr 1992 a 31 Rhagfyr1996 neu a fydd yn ymddeol o fewn pum mlynedd o ddal y swydd yn ystod y cyfnodhwnnw ar raddfa un rhan o ddeugain o drigain y cant o gyflog Deon Bro, a bydd yn cynnwys unrhyw lwfans neu gyflog ychwanegol a dalwyd i'r clerig yn rhinwedd gwasanaethu yn y cyfryw swydd.

28.

Bydd gan briod sy'n goroesi yr oedd ei ph/briod ymadawedig yn glerig neu'n ddiacones yn union cyn marw, ac a oedd :

(a) naill ai'n derbyn pensiwn (gan gynnwys pensiwn *ex gratia*) neu grant yn rhinwedd gwasanaeth yng ngweinidogaeth yr Eglwys yng Nghymru, taladwy gan Gorff y Cynrychiolwyr, neu,

(b) a fuasai'n derbyn pensiwn pe bai'r Cynllun Pensiynau blaenorol mewn grym ddyddiad ei f/marwolaeth , neu

(c) mewn gwasanaeth pensiynol gydag o leiaf ddwy flynedd o wasanaeth pensiynol wrth gefn,

hawl i bensiwn os:

(i) yn achos clerig neu ddiacones a fu farw cyn 1 Ebrill 1966, fod ganddo/io leiaf ddeng mlynedd o wasanaeth pensiynol wrth gefn ac iddo/i fodyn briod ag ef/ hi am o leiaf bum mlynedd ac yn cyd-fyw ag ef/ hi panfu farw;

(ii) yn achos clerig neu ddiacones a fu farw ar neu wedi 1 Ebrill 1966 a chyn 1 Ionawr 1978, fod ganddo/i o leiaf bum mlynedd o wasanaethpensiynol wrth gefn ac iddo/i fod yn briod ag ef/ hi am o leiaf bum mlynedd ac yn cyd-fyw ag ef/ hi adeg ei f/marwolaeth ;

(iii) yn achos clerig neu ddiacones a fu farw ar neu wedi 1 Ionawr 1978 a chyn 23 Medi 1994, fod ganddo/i o leiaf bum mlynedd o wasanaeth pensiynol wrth gefn a'i fod ef/hi wedi bod yn briod â'r ymadawedig amo leiaf bum mlynedd ac yn cyd-fyw ag ef/ hi adeg ei f/marwolaeth.

**Y Cadeirlannau**

Mae'n rhaid i bob Cadeirlan barhau i fod yn Gadeirlan yn yr Eglwys yng Nghymru bobamser. Yn amodol ar ddarpariaethau'r atodlen isod, cyfrifoldeb corff ymddiriedolwyr y Gadeirlan yw penderfynu ar ei chynllun ei hun, neu greu ei chyfansoddiad a'i rheoliadau ei hun.

Atodlen

1. (a) Bydd pwerau cyfredol yr Esgob fel Ymwelydd, a'i Awdurdodaeth Gyffredin dros y gadeirlan a'r Cabidwl, yn parhau fel cynt.

   (b) Gall yr Esgob gynnal Ordeiniadau, Conffyrmasiynau, Synodau a Gofwyon yn ygadeirlan ar adegau ac mewn modd y bydd ef neu hi'n penderfynu.

   (c) Gyda chaniatâd y Deon gall ef neu hi gynnal gwasanaethau arbennig eraill yny gadeirlan, ond nid sy'n ymyrryd ag addoliad dwyfol y gadeirlan.

   (d) Bydd gan yr Esgob hawl i gymryd mewn Gwasanaeth Dwyfol ac i bregethu yny gadeirlan fel y mae ef neu hi'n ei ystyried yn rhesymol, ar ôl ymgynghori â'r Deon.

2) Mae'n rhaid i gorff ymddiriedolwyr y gadeirlan gydymffurfio â Chyfansoddiad yrEglwys yng Nghymru a'r Ddeddf Elusennau.

3) Amcanion corff ymddiriedolwyr y gadeirlan fydd hyrwyddo cenhadaeth gyfan yrEglwys, yn fugeiliol, efengylaidd, cymdeithasol ac eciwmenaidd, yn y gadeirlan.

4) Bydd cyfrifoldebau corff ymddiriedolwyr y gadeirlan yn cynnwys:

   a) Rheoli holl arian y gadeirlan ac eithrio ymddiriedolaethau arbennig sy'ndarparu fel arall.

   b) Ystyried unrhyw fater a gyfeiriwyd yn briodol i gorff ymddiriedolwyr ygadeirlan.

5) Bydd aelodaeth corff ymddiriedolwyr y gadeirlan yn fater i gynllun neu gyfansoddiad a rheoliadau pob cadeirlan fel sy'n berthnasol, ond rhaid cynnwys yDeon bob amser.

6) Rhaid i gynllun neu gyfansoddiad pob eglwys gadeiriol gynnwys cymal fel aganlyn:

> 'Ni cheir gwneud unrhyw ddiwygiad i'r [cyfansoddiad/cynllun] hwn sy'n groes i unrhyw ddarpariaeth yng Nghyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru.'